**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon**

**CWLS (2) 04-07 (p3)**

**Dyddiad y cyfarfod: Dydd Mercher, 14 Mawrth 2007**
**Amser y cyfarfod: 9:00am - 12:15pm**
**Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1, Senedd**

# Y PWYLLGOR DIWYLLIANT, Y GYMRAEG A CHWARAEON ADRODDIAD AR GYFER Y CYFARFOD LLAWN DAN REOL SEFYDLOG 9.9 ADRODDIAD I'W GYFLWYNO I'R TRYDYDD CYNULLIAD: 2003 - 2007

## Cyflwyniad

1.1 Mae'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon yn un o bum pwyllgor pwnc y Cynulliad. Gwneir yr adroddiad hwn dan Reol Sefydlog 9.9, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau pwnc adrodd ar eu hynt yn cyflawni eu rhaglen waith wrth y Cynulliad. Gwneir yr adroddiad hwn ar wahân i adroddiad blynyddol y Pwyllgor ar gyfer 2006-07[1] ac mae mewn dwy ran. Yn gyntaf mae'n rhoi trosolwg ar flaenoriaethau strategol ac ar waith a chyraeddiadau'r Pwyllgor yn ystod yr Ail Gynulliad. Mae'r ail ran yn gyflwyniad i'r Pwyllgor(au) sy'n ei olynu yn y Trydydd Cynulliad, yn nodi'r materion allweddol y gall y Pwyllgorau hynny fod am eu hystyried.

1.2 Gellir gweld copïau o holl adroddiadau, agendau, papurau, cofnodion a thrawsgrifiadau cyfarfodydd ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:

http://www.wales.gov.uk/keypubassemcultwelsport/index.htm

## Trosolwg Strategol

### Cylch gwaith a chyfrifoldebau

2.1 Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn adlewyrchu portffolio'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon, sy'n cynnwys y celfyddydau, amgueddfeydd, henebion, llyfrgelloedd, ieithoedd Cymru, y cyfryngau a darlledu, chwaraeon a hamdden a materion sy'n gysylltiedig â'r loteri. Mae'r portffolio hefyd yn cynnwys cadw golwg ar bump o gyrff Cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad sef Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Chwaraeon Cymru, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

[1] http://www.wales.gov.uk/keypubassemcultwelsport/content/reports-e.htm

2.2 Mae cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc wedi'u hamlinellu yn Rheolau Sefydlog 9.7 a 9.8.[2]

**Gwaith a chyraeddiadau**

2.3 Cyfarfu'r Pwyllgor 55 gwaith yn ystod yr Ail Gynulliad. Fel rhan o'i ymrwymiad i wneud ei drafodion yn fwy hygyrch i bobl Cymru, cynhaliodd y Pwyllgor bump o'r cyfarfodydd hynny mewn lleoliadau ar draws Cymru (Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Caerdydd; Canolfan Gelfyddydau Casnewydd; Castell Cyfarthfa, Merthyr Tudful; Stadiwm Liberty, Abertawe; y Pafiliwn Rhyngwladol, Llangollen, a Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Llanarthne). Hefyd cyfarfu'r Pwyllgor ar y cyd â'r Pwyllgor ar Faterion Cymreig ym mis Mawrth 2005 i ystyried trydydd cam adolygiad Ofcom.

2.4 Yn ychwanegol at ei gyfarfodydd ffurfiol, fe fu'r Pwyllgor ar 17 ymweliad yn ystod y cyfnod yn cynnwys un ag Iwerddon yn 2004 fel rhan o'r broses casglu tystiolaeth ar gyfer yr adolygiad polisi ar gyfraniad y celfyddydau a chwaraeon i adfywio cymunedau; ac un ymweliad â Senedd yr Alban yn 2005 i gasglu tystiolaeth ar gyfer yr adolygiad polisi ar ddawns.

[2] http://www.wales.gov.uk/organipochamberbusiness/standingorders-e.htm

Prif Gyrhaeddiadau

2.5 Cafodd prif gyfrifoldebau strategol y Pwyllgor yn ystod yr 2il Gynulliad eu nodi yn eu rhaglenni gwaith strategol a'i Adroddiadau Blynyddol. Ei brif ffocws a chyrhaeddiad yn ystod y pedair blynedd fu ei bum adolygiad polisi ar:

- Ysgrifennu cyfrwng Saesneg yng Nghymru (Mawrth 2004)
- Cyfraniad y Celfyddydau a Chwaraeon i Adfywio Cymunedau (Ebrill 2005)
- Dawns yng Nghymru (Rhagfyr 2005)
- Papurau newydd Saesneg eu hiaith yng Nghymru <http://www.wales.gov.uk/keypubassemcultwelsport/content/tor-e.htm>u (Mehefin 2006)
- Pêl Droed yng Nghymru. (Chwefror 2007)[1]

2.6 Cafodd prif argymhellion y cyfan o'r pedwar adroddiad eu derbyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Canlyniadau nodedig o adroddiadau'r Pwyllgor fu sefydlu Llyfrgell Cymru a gyhoeddodd ei ail set o weithiau ysgrifennu Cymraeg a Saesneg clasurol ym mis Tachwedd 2006; a chynyddu arian ar gyfer celfyddydau a chwaraeon yn y gymuned, ac ar gyfer dawns. Ar fater Pêl Droed, yr oedd mwyafrif yr argymhellion wedi'u gwneud i Gymdeithas Bêl Droed Cymru. Ar amser ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd y Gymdeithas wedi ymateb i'r Pwyllgor. Derbyniwyd yr argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**2.7 Gwnaethpwyd un argymhelliad gan yr adolygiad o Bêl Droed i'r Trydydd Cynulliad: "Dylai hynt gweithredu argymhellion yr adroddiad gael ei adolygu o fewn 12 mis i'w gyhoeddi gan Bwyllgor perthnasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru".**

2.8 Maes allweddol arall gwaith y Pwyllgor oedd craffu ar gynigion y llywodraeth ar ddiwygio'r Cyrff Cyhoeddus diwylliannol a Noddir gan y Cynulliad, a'r effaith dilynol ar drin polisi ar y celfyddydau a chwaraeon o fewn y llywodraeth. Erbyn diwedd yr ail Gynulliad, yr oedd agweddau o ran manylion a pholisi yn y cyfan o'r tri maes yn parhau i fod yn amhenodol er ein bod yn deall fod egwyddorion bras wedi'u cytuno ar y ffordd ymlaen ar gyfer y celfyddydau a chwaraeon. Mae cynigion gyda golwg ar drin yr iaith Gymraeg yn y dyfodol i gael eu hystyried gan y Trydydd Cynulliad a disgwylir iddynt gael goblygiadau deddfwriaethol, (gweler paragraff 3.7 isod).

Craffu ar y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad

2.9 Elfen reolaidd o waith y Pwyllgor fu craffu'n flynyddol ar y Cyrff Cyhoeddus diwylliannol a Noddir gan y Cynulliad. Fe gefnogwyd y craffu gan gyfarfodydd anffurfiol ar wahân gyda phob corff, oedd yn

[1] Dyddiad cyhoeddi'r Adroddiad

galluogi trafodaeth fwy dwfn nag yr oedd amser yn ei ganiatáu mewn sefyllfa bwyllgor ffurfiol. Gan fod y cyfarfodydd hyn hefyd yn digwydd mewn safleoedd o ddiddordeb a reolwyd gan neu oedd ym mherchnogaeth y Corff Cyhoeddus perthnasol, yr oeddent hefyd yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor ymestyn ei wybodaeth trwy wneud ymweliadau eraill yn yr ardal. Cyflwynwyd adroddiadau ar yr ymweliadau hyn i'r cyfarfodydd Pwyllgor ffurfiol.

Darlledu

2.10 Er nad yw darlledu yn faes a ddatganolwyd, fe gyfrannodd y Pwyllgor serch hynny at sawl ymgynghoriad ac adolygiad allweddol ar ddyfodol darlledu, ac ar yr oblygiadau i Gymru. Yr oedd y rhain yn cynnwys adolygiad Siarter y BBC a'r Papurau Gwyrdd a Gwyn dilynol; adolygiad Ofcom ar ddarlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus, ac adroddiad Laughton ar S4C.

2.11 Hefyd cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn ar y cyd â'r Pwyllgor Materion Cymreig ym mis Mawrth 2005 ar adolygiad Ofcom.

Monitro'r Gyllideb

2.12 Yn ychwanegol at ei gyfrifoldebau yn ôl y rheolau sefydlog gyda golwg ar gynigion cyllidebol Llywodraeth Cynulliad Cymru, dechreuodd y Pwyllgor fonitro bob tymor wariant y Llywodraeth o fewn y portffolio diwylliant. Yr oedd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gweinidog adrodd bob tymor ar gynnydd o ran gwario neu ar unrhyw newid yn erbyn rhagolygon y gyllideb.

## I'w Drosglwyddo i'r Pwyllgor(au) Olynol

### Materion Strategol

3.1 Ymhlith y materion allweddol sydd i'w hystyried yn y dyfodol mae datblygiad a thriniaeth sefydliadol o bolisïau strategol o fewn y portffolio celfyddydau a diwylliant cyfredol. Mae, yn ychwanegol, raglenni ac amcanion penodol yn cael eu datblygu gan y pum Corff Cyhoeddus diwylliannol a Noddir gan y Cynulliad a godwyd gyda'r Pwyllgor yn ei gyfarfod olaf ond un ar 1 Mawrth 2007[2], a chan y Cyngor Llyfrau Cymraeg yn ei gyfarfod ar 7 Chwefror 2007[3].

### Y Celfyddydau

Polisi Celfyddydau

[2] Cofnod 1 Mawrth 2007
[3] Cofnod 7 Chwefror 2007

3.2 Yr oedd cyfrifoldebau a'r berthynas rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru gyda golwg ar ariannu a datblygu'r celfyddydau yn destun trafod helaeth yn ystod y cyfnod dan sylw. Yn 2006, cynhaliwyd adolygiad gan banel annibynnol dan arweiniad Elan Clos Stephens. Cafodd yr Adroddiad "Dull Gweithredu Deuol Allweddol ar gyfer Datblygiad Strategol y Celfyddydau yng Nghymru" ei gymeradwyo gan y Cynulliad ym mis Rhagfyr y flwyddyn honno. Gobeithia'r Pwyllgor y bydd gweithredu ar yr adroddiad yn gynnar gan y Trydydd Cynulliad ond mae'n rhybuddio fod angen iddo gael ei gymryd fel dangosydd arfer da at y dyfodol yn hytrach nag yn ganllaw a ragnodwyd.

3.3 Serch hynny, mae'r Pwyllgor yn argymell fod y Trydydd Cynulliad yn gweithredu ar y ddau argymhelliad allweddol, ac o fewn yr amserlen a gytunwyd yn flaenorol, ar gyfer sefydlu:

- Bwrdd Strategol ar gyfer y celfyddydau, ac
- Un strategaeth gelfyddydau genedlaethol newydd, ac
- Un strategaeth ddiwylliannol

Formatted: Bullets and Numbering

Datblygu Celf

3.4 Yn nhermau datblygiadau strategol penodol, mae'r Pwyllgor yn argymell na ddylid colli momentwm ar:

- gynlluniau Cyngor Celfyddydau Cymru gyda golwg ar ddatblygu theatr genedlaethol Saesneg ei hiaith ar gyfer Cymru;
- datblygu oriel gelf genedlaethol i Gymru a chefnogaeth barhaus i
- Cynlluniau Amgueddfa Genedlaethol Cymru ar gyfer ei datblygiad o safle Parc Cathays sydd i gynnwys amgueddfa gelf genedlaethol ;
- Rhaglen ddigido Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'i rhaglen gwella mynediad i bawb;
- Y gwaith pwysig a wneir gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru ar ymchwil a chadwraeth a'r angen am ei chronfa casgliadau;
- Datblygu Amgueddfa Hanes Pobl;
- dilyn yr adroddiad Marchnata ar y Cyd ar ysgrifennu Cymreig yn Saesneg, a chryfhau'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru fel yr argymhellwyd yn adroddiad y Pwyllgor ar Ysgrifennu Cymreig yn Saesneg;
- gweithredu'n llawn argymhellion eraill adroddiadau'r Pwyllgor ar ysgrifennu Cymreig yn Saesneg, Dawns, a Chyfraniad Celfyddyd a Chwaraeon i Adfywio Cymunedau

**Chwaraeon**

3.5 Ynghyd â Chyngor Celfyddydau Cymru a'r polisi celfyddydau, mae polisi chwaraeon a'r rhyngberthynas rhwng Cyngor Chwaraeon Cymru

a'r llywodraeth hefyd wedi bod yn cael eu hystyried. Mae'r Pwyllgor yn deall fod materion cyfrifoldebau sefydliadol a staffio bellach wedi'u datrys yn foddhaol. Dan amgylchiadau gwahanol, byddai'r Pwyllgor wedi gofyn am adroddiad manwl ar y mater.

3.6 Un mater yr ydym yn argymell sy'n cael ei ddilyn gan y Trydydd Cynulliad, yw'r argymhellion gan adroddiad pêl droed y Pwyllgor – gweler paragraff 2.7 uchod.

## Yr Iaith Gymraeg

3.7 Maes pellach i gael ei ystyried gan y Trydydd Cynulliad yw'r ymdriniaeth o bolisi'r Iaith Gymraeg yn y dyfodol, yn cynnwys dyfodol Bwrdd yr Iaith Gymraeg; yr angen am ddeddfwriaeth ar gyfer unrhyw Ddyfarnydd/ Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg yn y dyfodol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn tynnu sylw at y cynnig caredig a gafwyd o gymorth a chyngor yn y dyfodol oddi wrth Gomisiynydd yr Iaith Wyddeleg a wnaethpwyd yn y cyfarfod ar 13 Rhagfyr.

3.8 Ar wahân i'r fframwaith strategol ar gyfer yr iaith Gymraeg, mae'r Pwyllgor yn cynnig hefyd y dylai addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig ar ôl 16 oed fod yn faes penodol i'w ystyried gan y Trydydd Cynulliad.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor yn ei gyfarfod diwethaf (14 Mawrth) i ysgrifennu at y Swyddfa Ystadegau Gwladol i ofyn fod medrusrwydd mewn a mynychder yn defnyddio'r iaith Gymraeg yn cael eu cynnwys yng Nghyfrifiad 2011. Hefyd dymunai'r Pwyllgor weld cwestiynau ehangach ar ddefnyddio'r iaith yn y Cyfrifiad.

## Ariannu

3.9 Mae'r Pwyllgor wedi mynnu'n gyson trwy gydol y cyfnod fod pwysigrwydd y celfyddydau a diwylliant (yn cynnwys chwaraeon), eto i gael ei gydnabod yn llawn gan y llywodraeth naill ai o fewn ei rhaglenni a'i pholisïau prif ffrwd neu trwy ei chyfran hi o'r gyllideb. Ac nid yw'r sefydliadau diwylliannol na'r sefydliadau chwaraeon eu hunain yn cael cefnogaeth i'r graddau y gallant ddatblygu fel y byddent hwy, na ninnau'n dymuno. Fel y nodwyd uchod, fe fyddem yn gobeithio fod yr argymhellion yn ein hadroddiadau yn cael eu gweithredu'n llawn, ond fe all fod angen arian ychwanegol yn ogystal â thipyn o newid byd o ran safbwynt y llywodraeth ar lawer ohonynt. Ni ddylai'r celfyddydau a chwaraeon gael eu hystyried fel ychwanegiad at bolisïau a strategaethau, ond dylid yn hytrach eu gosod yn ganolog yn rhaglenni'r llywodraeth.

3.10 O ran materion penodol, ac yn ychwanegol at y mentrau hynny a restrwyd yn gynharach, mae'r Pwyllgor yn argymell fod y Cynulliad nesaf yn rhoi pwys digonol ar yr angen am adnoddau ar gyfer:

- problemau cronfa bensiwn Amgueddfa Genedlaethol Cymru sydd eto i’w datrys ac a allai gael effaith ddifrifol yn y dyfodol ar arian yr Amgueddfa;
- cydnabyddiaeth mai Llyfrgell Genedlaethol Cymru yw un o’r llyfrgelloedd mwyaf yn y byd a’r angen iddi fedru gweithredu yn y fath fodd, gydag o leiaf arian sy’n cyfateb i chwyddiant yn flynyddol;
- gweithgareddau chwaraeon yn cynnwys;
  - Cost darparu’r rhaglen 5x60 a gweithgareddau tu allan i ysgolion yn cynnwys Cymunedau Gweithredol
  - Cefnogaeth barhaus i Addysg Gorfforol mewn ysgolion
  - Cefnogaeth barhaus i Gemau’r Gymanwlad ac ar gyfer
  - Chwaraeon i’r anabl
- Cefnogaeth barhaus i Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Teimlai’r Pwyllgor hefyd y dylai hynt datblygu’r Gerddi barhau i gael ei arolygu a phle bo’n bosibl, y dylai hyn gynnwys ymweliadau gan Bwyllgor perthnasol, i sicrhau gwerth am arian.

**Deleted:** .

**Formatted:** Bullets and Numbering

**Formatted:** Font: (Default) Times New Roman

**Formatted:** Indent: Left: 18 pt

**Formatted:** Bulleted + Level: 2 + Aligned at: 54 pt + Tab after: 72 pt + Indent at: 72 pt

**Formatted:** Font: (Default) Arial

**Formatted:** Font: (Default) Arial

**Formatted:** Font: (Default) Arial

**Formatted:** Font: (Default) Arial

**Formatted:** Font: (Default) Arial

3.11 Un maes pryder posibl at y dyfodol ar gyfer gweithgareddau diwylliannol yng Nghymru yw ei chyfran o arian Loteri a allai gael ei ddargyfeirio’n rhannol i gefnogi Gemau Olympaidd 2012 . Er bod y Pwyllgor yn croesawu’r penderfyniad i gynnal y Gemau Olympaidd yn y Deyrnas Unedig, nid yw’n credu y dylai hyn fod ar draul gweithgareddau diwylliannol eraill. Mae llawer o raglenni a phrosiectau yng Nghymru sy’n ddibynnol ar arian Loteri ac a fydd yn cael eu heffeithio’n ddirfawr pe byddai’r arian yn cael ei ddileu.

**Perthynas gyda Sefydliadau Diwylliannol yn y Dyfodol**

3.12 Mae rhan y Pwyllgor hwn yn dod â barn ddeallus ar sefydliadau diwylliannol allwedol yn fater o gofnod. Cafodd y Pwyllgor ei atgoffa o hyn yn ystod ei sesiynau olaf gyda’r cyfan o’r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Awgrymwyd, beth bynnag fyddai strwythur y Trydydd Cynulliad at y dyfodol, y dylai corff o Aelodau’r Cynulliad a all barhau gyda’r diddordeb hwn mewn rhyw fodd ffurfiol, barhau.

**Ewrop**

3.13 Yn ei gyfarfod ar 7 Chwefror, ystyriodd y Pwyllgor raglen waith flynyddol yr UE a dynodi’r meysydd blaenoriaeth ar gyfer eu hystyried gan y Trydydd Cynulliad:

- Y Papur Gwyn ar Chwaraeon
- Ieithoedd lleiafrifol a’r posibilrwydd o ddefnyddio’r Gymraeg mewn trafodion swyddogol o fewn sefydliadau’r UE
- Digido treftadaeth ddiwylliannol
- Blwyddyn Ewropeaidd Trafod Rhyngddiwylliannol
- Cyfathrebiad am Ddiwylliant .

**Materion trawsbynciol**

3.14 Fel y nodwyd yn gynharach. Cred y Pwyllgor y dylai'r portffolio celfyddydau a chwaraeon gael ei gorffori o fewn rhaglenni a pholisïau'r llywodraeth, yn cynnwys ariannu. Hefyd mae meysydd ble mae'r cyfrifoldebau rhwng portffolios heb fod yn amlwg, neu ble mae'r briff diwylliant yn ymddangos i ni i fod yn lle mwy priodol i arwain neu gyd-drefnu. Mae'r rhain yn cynnwys cyfrifoldeb am nifer o feysydd sydd ag effaith economaidd penodol, ac sydd wedi'u harwain o'r persbectif hwnnw yn hytrach nag un diwylliannol, er enghraifft::

- darlledu a ffilm;
- twristiaeth ddiwylliannol;
- diwydiannau creadigol/ diwylliannol

3.14 Maes trawsbynciol arall yw gyda'r portffolio addysg ac yn arbennig addysg trwy gyfrwng y Gymraeg a chwaraeon mewn ysgolion.

3.15 Gyda golwg ar ddarlledu, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Trydydd Cynulliad sicrhau nad yw Cymru dan unrhyw anfantais pan fo "diffodd" o analog yn digwydd o 2009 ymlaen.

3.16 Yn olaf, byddai'r Pwyllgor yn annog y Trydydd Cynulliad i barhau i'w gwneud yn ofynnol i'r cyfan o'i Bwyllgorau gynnwys materion cydraddoldeb yn eu hystyriaethau.

**Deddfwriaeth**

3.17 Mae dau faes ar gyfer eu hystyried yn y dyfodol gan y Trydydd Cynulliad:

- Sefydlu'r Dyfarnydd; ymgorffori Bwrdd yr Iaith Gymraeg
- Papur Gwyn ar yr Amgylchedd Hanesyddol.

**Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau**
**Mawrth 2007**